Network Rail
Tŷ Sant Padrig
17 Heol Penarth
Caerdydd
CF10 5ZA

17 Rhagfyr 2020

Annwyl cydweithiwr,

Buddsoddiad Llinell y Cambrian

Mae 2021 yn flwyddyn gyffrous o ran buddsoddi yn Llinell y Cambrian. Cyn bo hir byddwn yn dechrau adnewyddu **Traphont Traeth Mawr**, sy'n cysylltu Porthmadog a Minffordd dros afon Glaslyn. Bydd ein prosiect gwerth £1.85 miliwn i dynnu rhannau pren ar y draphont a gosod rhai newydd yn eu lle yn caniatáu inni barhau i ddarparu rheilffordd ddiogel, ddibynadwy a chydnerth am flynyddoedd lawer.

Bydd ein contractwyr Amco yn trefnu ein safle o 15 Ionawr 2021 ymlaen. Byddwn yn cau'r rheilffordd o ddydd Sadwrn 13 Chwefror i ddydd Sul 21 Chwefror er mwyn inni allu cyflawni'r prif waith yn ddiogel. Bydd ein cydweithwyr yn Nhrafnidiaeth Cymru yn darparu gwasanaethau bysiau yn lle trenau rhwng Porthmadog a Harlech yn ystod y gwaith. Rydym yn disgwyl dod yn ôl i wneud rhagor o waith ar Draphont Traeth Mawr, sy'n debyg o ddigwydd yn 2022 neu 2023.

Rydym hefyd yn bwriadu gwneud gwaith cydnerthedd ar **bont Glyntwymyn** ym Mhowys. Byddwn yn codi'r bont yn uwch er mwyn helpu i atal cau'r rheilffordd am gyfnodau hir oherwydd llifogydd yn y dyfodol. Disgwylir y bydd y rheilffordd ar gau o 10 Ebrill i 9 Mai er mwyn inni allu gwneud y gwaith, a bydd bysiau'n rhedeg yn lle trenau.

Byddwn yn parhau â'n gwaith gwerth £25 miliwn i adnewyddu **Traphont Abermaw** o 12 Medi i 12 Rhagfyr. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r cyfnod y mae'r rheilffordd ar gau, rydym hefyd yn bwriadu adnewyddu **Pant Eidal** yng Ngwynedd yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y gwaith hwn yn caniatáu inni barhau i redeg rheilffordd ddiogel a dibynadwy.

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac na fydd y gwaith yn achosi gormod o darfu. Bydd y gwaith yn helpu i atal cau'r rheilffordd am gyfnodau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio yn y dyfodol, gan achosi cyn lleied o darfu ag sy'n bosibl ar deithwyr a lleihau costau cynnal a chadw i'r trethdalwyr. Dylech gynllunio ymlaen llaw a chaniatáu amser ychwanegol ar gyfer eich taith.

Diolch am barhau i'n cefnogi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau mae croeso ichi gysylltu.

Yn gywir

Sam Hadley
Pennaeth Cyfathrebu, Network Rail Cymru a'r Gororau

Network Rail
St Patrick's House
17 Penarth Road
Cardiff
CF10 5ZA

17 December 2020

Dear colleague,

Cambrian Line investment

2021 is an exciting year for investment in the Cambrian Line. We will shortly begin refurbishing **Traeth Mawr Viaduct**, also known as Traeth River Viaduct, which connects Porthmadog and Minffordd over the Afon Glaslyn. Our £1.85m project to replace timbers on the viaduct will allow us to continue providing a safe, reliable and resilient railway for many years to come.

Our contractors Amco will be setting up our site from 15 January 2021. We will be closing the railway from Saturday 13 February to Sunday 21 February so that we can carry out our main work safely. Our colleagues at Transport for Wales will be providing rail replacement services between Porthmadog and Harlech during the work. We are expecting to return to carry further work on Traeth Mawr Viaduct, which is likely to take place in 2022 or 2023.

We are also planning to carry out resilience work at **Black Bridge**, also known as Glyntwymyn, in Powys. We will be lifting the bridge higher to help to prevent long closures due to flooding in the future. The railway is expected to be closed from 10 April to 9 May so that we can carry out this work, with rail replacement services in operation.

We will be continuing our £25m restoration of **Barmouth Viaduct** from 12 September to 12 December. To make the most of the closure, we are also planning to renew **Pant Eidal**, in Gwynedd, when the railway is closed. This work will allow us to continue to run a safe and reliable railway.

I hope this information is useful and the work isn't too disruptive. Work will help to prevent future periods of planned and unplanned closures, minimising disruption for passengers and reducing maintenance costs to the taxpayer. Please plan ahead and allow additional time for travelling.

Thank you for your continued support and please do get in touch if you have any questions.

Yours sincerely

Sam Hadley
Head of Communications, Network Rail Wales and Borders